OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2014 Rhif 2853 (Cy. 290)

## TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan Hirwaun i Gylchfan Rhigos, Rhondda Cynon Taf) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2014

*Gwnaed* *24 Hydref 2014*

*Yn dod i rym* *3 Tachwedd 2014*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Castellnedd – Y Fenni (yr A465) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd y byddai perygl i'r cyhoedd o ganlyniad i gludo llwyth anwahanadwy annormal.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984[1] a phob pŵer galluogi arall[2], yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 3 Tachwedd 2014. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan Hirwaun i Gylchfan Rhigos, Rhondda Cynon Taf) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2014.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith o gludo'r llwythi anwahanadwy annormal sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y cludo" ("*transportation period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 09:00 o'r gloch ar 3 Tachwedd 2014 ac sy'n dod i ben pan fydd y gwaith o symud y llwythi anwahanadwy annormal wedi ei gwblhau;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *("the length of the trunk road")* yw'r darn o brif gerbytffordd Cefnffordd yr A465 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Hirwaun hyd at ei chyffordd â Chylchfan Rhigos ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y cludo, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darn o'r gefnffordd.

**Atal Dros Dro**

**4.** Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Hirwaun, Rhondda Cynon Taf) (Gwahardd Troi i'r Dde) 2014**(3)** drwy hyn wedi eu hatal dros dro mewn cysylltiad â'r darn o'r gefnffordd yn ystod y cyfnodau hynny pan fydd y gwaharddiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**5.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**6.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 24 Hydref 2014

***R Morgan***

**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; Amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(3)** O.S. 2014/1064 (Cy. 103)